**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023 trwy Zoom**

**Yn Bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Julia Hughes (Cadeirydd) | JH | Aelod Annibynnol |
| Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd) | SE | Aelod Annibynnol |
| Gareth Pritchard | GP | Aelod Annibynnol |
| Gill Murgatroyd | GM | Aelod Annibynnol |
| Y Cynghorydd John Brynmor Hughes | JBM | Cyngor Gwynedd |

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Owens | GO | Swyddog Monitro/Clerc |
| Lisa Allington | LJA | Cynorthwyydd Gweithredol/Cyswllt Aelodau |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Marion Bateman | MB | Cyngor Sir y Fflint |

**Yn Absennol**

---

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00.

1 **YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd ymddiheuriadau gan Gareth Owens ar ran y Cynghorydd Marion Bateman.

**2 DATGANIAD O FUDDIANT**

2.1 Datganodd Gill Murgatroyd fuddiant ar Eitem 10, yr oedd yr adroddiad ar ei gyfer yn cyfeirio at adroddiad Pwyllgor Safonau Conwy, yr oedd yn aelod ohono.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Dim.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

4.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023 fel cofnod cywir.

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Rhoddwyd diweddariad ar Eitem 5.3 o'r cofnodion, a hysbyswyd yr Aelodau bod ail gyfarfod y Cadeiryddion a'r Dirprwy Gadeiryddion wedi ei gynnal ddydd Mercher 29 Mawrth 2023.

5.2 O ran Eitem 9.1 mewn perthynas ag ailbenodi'r Aelodau Annibynnol Gareth Pritchard a Gill Murgatroyd, codwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub na chyflwynwyd ysgrifau portread ar gyfer yr Aelodau hyn. Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod yr ysgrifau portread hynny wedi'u gosod gerbron yr Awdurdod wrth eu penodi yn y lle cyntaf; fodd bynnag, roedd rhai Aelodau o'r Awdurdod yn gymharol newydd ac felly ni fyddent wedi eu gweld. Nodwyd y byddai angen cyflenwi ysgrifau portread yn y dyfodol ar gyfer ailbenodiadau.

5.3 Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch manteision rhoi cymeradwyaeth y Cadeirydd i Aelodau'r ATA ar gyfer ailbenodiadau a chytunwyd y dylai hyn ddigwydd hefyd.

5.4 Mewn perthynas ag Eitem 13.3 a gyfeiriodd at gyfarfod cyntaf y Fforwm Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau, nid oedd y cofnodion wedi'u cymeradwyo i'w cylchredeg yn y cyfarfod hwnnw; fodd bynnag, roedd cymeradwyaeth wedi'i rhoi yn yr ail gyfarfod ac felly byddai'r rhain bellach yn cael eu cylchredeg ymhlith Aelodau'r Pwyllgor.

5.5 **PENDERFYNWYD:**

i) Darparu ysgrifau portread i Aelodau'r Awdurdod wrth ailbenodi Aelodau Annibynnol; a
ii) Rhoi cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn achos ailbenodi Aelodau Annibynnol.

## 6 ADOLYGIAD O'R PROTOCOL AR RODDION A LLETYGARWCH

6.1 Cyflwynwyd papur gan y Clerc a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r protocol diwygiedig ar roddion a lletygarwch. Eglurodd y Clerc mai dim ond i aelodau staff nad ydynt yn ddiffoddwyr tân y mae'r polisi hwn yn berthnasol.

6.2 Nodwyd bod y newidiadau i'r polisi hwn yn rhai o ran fformat ac i egluro pwyntiau yn unig. Ni chafwyd unrhyw newidiadau i'r cynnwys.

6.3 Gofynnwyd a oedd problem gyda chysondeb polisi rhwng diffoddwyr tân a'r rhai nad ydynt yn ddiffoddwyr tân, ac ymatebodd y Clerc fod hyn yn bennaf oherwydd eu bod yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol ac felly roedd ystyriaethau gwahanol yn berthnasol.

6.4 Tynnwyd sylw at rai gwallau gramadegol ac anghysondebau mewn llinellau adrodd yn y polisi a'r weithdrefn a chytunwyd y dylid diwygio'r rhain.

6.5 Gofynnodd un Aelod a ddylid ailystyried y swm trothwy o £25.00 yng ngoleuni'r argyfwng costau byw a chynhaliwyd trafodaeth yn ymwneud â'r pwynt hwn; fodd bynnag, gan mai dim ond o fewn y 12 mis diwethaf y gosodwyd hyn, a'i fod yn gyson â'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, teimlwyd bod hwn yn swm derbyniol.

6.6 Gofynnwyd a fu craffu ar y polisi a'r weithdrefn hon ac a fydden nhw'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ai peidio. Ymatebodd y Clerc y byddai'n anarferol iddynt gael eu cyhoeddi, ond y byddai archwilwyr mewnol yr Awdurdod yn craffu arnynt.

6.7 Mynegwyd pryder y gallai fod llwybr i osgoi'r angen i ddatgan rhodd drwy dderbyn rhoddion rheolaidd gwerth llai na'r trothwy ar bob achlysur. Awgrymwyd y dylid cyflwyno ail drothwy o £100.00 mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.

6.8 **PENDERFYNWYD:**

i) Cynnal gwiriadau ynghylch y cysondeb rhwng y trothwy o fewn y Polisi Rhoddion a Lletygarwch hwn a chod y diffoddwyr tân ac, os nad oes un, bod y Prif Swyddog Tân yn ystyried a fyddai'n dymuno sicrhau cyfatebiaeth rhwng cod y diffoddwyr tân a'r polisi a'r weithdrefn Rhoddion a Lletygarwch ai peidio.

ii) Rhoi adborth yn y cyfarfod Safonau nesaf ynghylch pwy sy'n craffu ar y Polisi Rhoddion a Lletygarwch a pha mor aml, a bod hyn yn cael ei ychwanegu at y polisi;

iii) Ychwanegu ail drothwy at y Polisi Rhoddion a Lletygarwch o £100.00 ar gyfer rhoddion a dderbynnir o'r un ffynhonnell mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis; ac

iv) Yn amodol ar y penderfyniadau uchod, cymeradwyo'r polisi a'r weithdrefn Rhoddion a Lletygarwch.

## 7 PRESENOLDEB AELODAU YNG NGHYFARFODYDD YR AWDURDOD

7.1 Cyflwynodd y Clerc bapur ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a oedd yn ceisio ystyried a mynd i'r afael ag unrhyw bresenoldeb gwael yng nghyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

7.2 Pwysleisiwyd pwysigrwydd presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod er mwyn sicrhau llywodraethu da.

7.3 Rhoddwyd gwybod i'r rhai a oedd yn bresennol fod tabl o lefelau presenoldeb wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ac ysgrifennir at unrhyw Aelodau y mae eu presenoldeb yn gostwng yn agos at y trothwy neu islaw'r trothwy o 50%, ynghyd â'u Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd.

7.4 Gofynnwyd i unrhyw welliannau ym mhresenoldeb Aelodau yn dilyn cyhoeddi llythyr o bryder gael ei nodi mewn adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

7.5 Codwyd mater presenoldeb gwael Aelodau o awdurdod cyfansoddol penodol ac a allai fod rheswm dros hyn, megis cyfarfodydd yn cael eu cynnal yr un pryd. Fodd bynnag, nodwyd bod cyswllt rhwng y Swyddog Monitro a'r awdurdodau cyfansoddol i sicrhau nad oedd cyfarfodydd y cyngor yn cael eu trefnu ar yr un pryd â chyfarfodydd llawn yr Awdurdod Tân ac Achub.

7.6 **PENDERFYNWYD**

i) Gofyn i'r Swyddog Monitro gysylltu â Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Wrecsam i weld a oes cyfarfodydd yn cael eu cynnal yr un pryd yn rheolaidd sy'n atal Aelodau Wrecsam rhag mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod;
ii) Ystyried cyfraddau presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod hwn ers mis Chwefror 2023;
iii) Cynnal cymariaethau data o ddiwedd y flwyddyn i ddiwedd y flwyddyn er mwyn nodi a fu gwelliant ym mhresenoldeb yr Aelodau; ac
iv) Ysgrifennu at awdurdodau cyfansoddol ac unrhyw Aelodau o'r Awdurdod lle mae presenoldeb yn is na 50%

8 **ADBORTH O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYFARFODYDD YR AWDURDOD**

8.1 Nodwyd y bu arsylwi ar bedwar o gyfarfodydd i gyd a bod adborth ysgrifenedig o'r arsylwadau hynny wedi cael ei ddarparu fel rhan o becyn y cyfarfod. Roedd pawb yn cytuno bod y cyfarfodydd yn cael eu rhedeg a'u cynnal yn dda.

8.2 Nodwyd bod nifer o strwythurau da ar waith gan gynnwys y gefnogaeth a gynigir gan y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro i'r Cadeiryddion a labelu teitlau a rolau'r rhai sy'n bresennol ar-lein.

8.3 Mynegwyd pryder y gallai rhai cyfarfodydd fod yn rhy syml ac nad oedd fawr ddim herio gan yr Aelodau. Roedd amheuon hefyd ynghylch dichonoldeb cynnal cyfarfodydd trwy fformat hybrid a chynhaliwyd trafodaeth ynghylch hyn.

8.4 Roedd un Aelod yn teimlo bod y proforma a ddefnyddir ar gyfer cofnodi’r arsylwi yn rhy gul, ond eglurwyd ei fod wedi'i ddatblygu yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor Safonau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod. Felly, dylid gwneud unrhyw nodiadau y tu allan i'r meysydd hynny a nodir yn yr adran sylwadau ychwanegol.

8.5 Cytunodd yr Aelodau fod arsylwi ar gyfarfodydd wedi bod yn ymarfer gwerthfawr a, gan na nodwyd unrhyw faterion, y dylid caniatáu i gyfnod o ychydig flynyddoedd fynd heibio cyn cynnal arsylwadau eto.

8.6 Awgrymwyd y dylid rhoi adborth o'r arsylwi ar y cyfarfodydd hyn mewn cyfarfod llawn o'r Awdurdod Tân ac Achub yn y dyfodol.

8.7 **PENDERFYNWYD:**

i) Rhoi adborth i gyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn y dyfodol o ran arsylwadau ar gyfarfodydd sydd wedi cael eu cynnal; a
ii) Chaniatáu i gyfnod o ddwy flynedd fynd heibio ac yna cynnal arsylwadau pellach ar gyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub hwn yn nes at ddiwedd ei dymor.

9 **ADBORTH O'R FFORWM CENEDLAETHOL AR GYFER PWYLLGORAU SAFONAU (AR LAFAR)**

9.1 Rhoddodd y Cadeirydd adborth ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau a chytunodd i gylchredeg cofnodion y cyfarfod hwn o amgylch Aelodau'r Pwyllgor.

9.2 Eglurwyd bod y fforwm hwn wedi deillio o Adolygiad Penn ac roedd y cyfarfod wedi cynnwys cyflwyniadau gan yr Athro Mark Philp a Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

9.3 Rhoddwyd trosolwg o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod hwn ac roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniad ar y Bwrdd Cynghori ar Ymchwil Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus; diweddariad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW); eitemau ar gylch gwaith ac adnoddau Pwyllgorau Safonau a chynnal safonau ymddygiad uchel; diweddariad ar Adolygiad Penn; ac eitem ar roddion a lletygarwch.

9.4 Diolchodd yr Aelodau i'r Cadeirydd am ei hadborth a mynegwyd pryder ynghylch y materion y tynnwyd sylw atynt gan yr Ombwdsmon ynghylch diogelu mewn perthynas â'r amser a gymerwyd i gael penderfyniad tribiwnlys.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

i) Cylchredeg cofnodion y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau i Aelodau'r Pwyllgor Safonau hwn.

Cynhaliwyd egwyl gysur rhwng 16:01 a 16.06

11 **OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CYHOEDDI EIN CANFYDDIADAU**

10.1 Cyflwynodd y Clerc bapur gyda'r bwriad o hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru i weld a oedd unrhyw negeseuon y mae angen eu rhannu ag Aelodau'r Awdurdod.

10.2 Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch canfyddiadau'r adroddiad a chytunwyd nad oedd yn ymddangos bod unrhyw dueddiadau yn y canfyddiadau; fodd bynnag, teimlwyd y dylid codi'r mater o ymuno â chyfarfodydd wrth yrru gyda'r Aelodau ac y dylid ysgrifennu hyn hefyd yn y Polisi Cyfarfodydd.

10.3 Hysbyswyd yr Aelodau am ddigwyddiad ym mis Mawrth 2023 lle'r oedd Aelod o Wrecsam wedi bod yn destun ymchwiliad am gamddefnyddio swydd. Nid oedd yr Ombwdsmon Cyhoeddus wedi cael gwybod bod y Cynghorydd hefyd yn Aelod o'r Awdurdod Tân ac felly yn ei dro, nid oedd y Pwyllgor Safonau hwn wedi cael gwybod am yr ataliad dros dro.

10.4 Cynhaliwyd ymchwiliadau gan y Swyddog Monitro a'r Cadeirydd a phenderfynwyd nad oedd ataliad dros dro awtomatig o'r Awdurdod Tân ac Achub yn briodol. Rhoddwyd adborth i'r Ombwdsmon Cyhoeddus y byddai'n addas iddynt hysbysu'r Awdurdod pe bai Cynghorwyr hefyd yn Aelodau o gorff cyhoeddus arall yn ystod eu hymchwiliadau.

10.4 O ganlyniad i'r uchod, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi diwygio ei weithdrefnau i sicrhau ei fod yn gwirio a yw Cynghorydd hefyd yn aelod o gorff cyhoeddus arall fel rhan o'i ymchwiliad.

10.5 **PENDERFYNWYD:**

i) Cynghori'r Aelodau nad yw'n briodol ymuno â chyfarfodydd wrth yrru; ac
ii) Ysgrifennu yn y Polisi Cyfarfodydd nad yw ymuno â chyfarfodydd wrth yrru yn briodol.

## 11 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL

11.1 Cyflwynwyd papur a luniwyd i hysbysu'r Aelodau am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022/23 gan y Clerc.

11.2 Nodwyd bod yr Ombwdsmon Cyhoeddus yn cael problemau gyda chapasiti ar hyn o bryd a bod hyn wedi arwain at beidio ag ymchwilio i achosion o fewn yr amserlenni penodedig.

11.3 **PENDERFYNWYD:**

i) ystyried a nodi'r adroddiad.

## 12 PANEL DYFARNU CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL

12.1 Cyflwynodd y Clerc bapur i hysbysu Aelodau am Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer 2022/23.

12.2 Nodwyd bod dros 90% o'r atgyfeiriadau i Banel Dyfarnu Cymru wedi'u cadarnhau.

12.3 Teimlwyd nad oedd tueddiadau penodol yn y data, er y gallai fod yn ddiddorol i Gynghorwyr nodi maint y gosb y gallai Panel Dyfarnu Cymru ei phennu.

12.4 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi'r adroddiad; a

ii) Dosbarthu'r ddolen ar gyfer adroddiad Panel Dyfarnu Cymru i Aelodau'r Awdurdod ynghyd â sylw mewn perthynas â graddau'r gosb y gall y Panel ei phennu ac y byddai achosion yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig i'r Awdurdod lle gallai Aelod fod wedi torri'r cod yn ei gyngor cyfansoddol.

## 13 BLAENGYNLLUN GWAITH

13.1 Cyflwynodd y Clerc y Blaengynllun Gwaith i'r Aelodau a chynhaliwyd trafodaeth ynghylch ei gynnwys.

13.2 **PENDERFYNWYD:**

i) Tynnu arsylwadau o gyfarfodydd yr Awdurdod o'r Blaengynllun Gwaith yn unol ag Eitem 8 y cofnodion hyn;

ii) Dileu dyblygu adborth ar Adolygiad Penn o fis Chwefror/Mawrth 2024 ac ychwanegu presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod;

iii) Ychwanegu adolygiad o'r Adroddiad Blynyddol drafft at fis Chwefror/Mawrth 2024;

iv) symud ymlaen gyda'r Blaengynllun Gwaith fel y'i cyflwynwyd i'r Aelodau gyda'r gwelliannau uchod; ac

v) Anfon e-bost at yr Aelodau gyda dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd yn unol â'r Blaengynllun Gwaith.

## 14 MATERION BRYS

14.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

**Cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 16:43**